**ARCHWILIAD**

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD (2018-2033)**

**PEN-Y-BONT AR OGWR**

---

**RHESTR O FATERION A CHWESTIYNAU**

**M7 (1) Datganiad Sesiwn Gwrandawiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

**Mater 7: Amddiffyn a Gwella Lleoedd Unigryw a Naturiol – Yr Amgylchedd Adeiledig, Hanesyddol a Naturiol**

*Mater: A yw'r Cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli'r amgylchedd adeiledig, hanesyddol a naturiol sydd wedi'i seilio'n gadarn, wedi'i gyfiawnhau ac yn gyson â gofynion polisi cenedlaethol?*

***Yr Amgylchedd Naturiol***

1. **A yw Polisi SP17 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer cadwraeth a gwelliant yr amgylchedd naturiol?**

   Mae Polisi SP17 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer cadwraeth a gwelliant yr amgylchedd naturiol. Mae'r polisi'n nodi meini prawf o warchod safleoedd dynodedig (ar bob graddfa ofodol) a chadw a gwella'r amgylchedd naturiol. Ni chaniateir cynigion datblygu sy'n effeithio'n andwyol ar uniondeb y cefn gwlad, cymeriad y dirwedd, bioamrywiaeth a chynefinoedd ac ansawdd adnoddau naturiol. Mae'n bwysig amlygu'r problemau pwysig hyn i sicrhau bod yr holl ddatblygiadau wedi'u hystyried yn ddigonol. Bydd y pwysau i'w cymhwyso i bob un o'r meini prawf hyn yn cael eu hystyried yn ystod y broses ymgeisio pan fydd yn glir pa feini prawf sy'n berthnasol i'r cais. Mae'r Polisi hefyd yn ceisio gwarchod sawl ardal ddynodedig statudol sydd ag ansawdd amgylchedd uchel a/neu unigryw. Bydd Polisi SP17 yn sicrhau y bydd yr ardaloedd hyn wedi'u gwarchod rhag datblygu amhriodol a fydd yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol arnyn nhw yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) paragraff 6.4.15. Cefnogir y polisi gan Bolisi Cynllunio Cymru yn enwedig o fewn y thema 'Lleoedd Unigryw a Naturiol'.

   Oherwydd y dylid darllen y cynllun yn ei gyfanrwydd, mae'n bwysig darllen Polisi SP17 ochr yn ochr â'r polisïau rheoli datblygu a nodir o dan y polisi hwn, gan fod y rhain yn darparu rhagor o fanylion er mwyn asesu ceisiadau cynllunio a dehongli beth sydd ei angen mewn gwahanol gyd-destunau. Ehangir a chefnogir Polisi SP17 gan gyfres o bolisïau thematig (DNP1 – 9) i nodi gofynion clir i ddatblygiad leihau llygredd, gwella seilwaith gwyrdd, cyflawni bioamrywiaeth net budd, gwella cadernid ecosystem, gwarchod safleoedd dynodedig, a chyflawni rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.

Ar y cyfan, mae polisi SP17 yn darparu fframwaith clir a chyson ar gyfer cadwraeth a gwelliant yr amgylchedd naturiol. Bydd darllen Polisi SP17 ochr yn ochr â'r polisïau ategol ar gyfer rheoli datblygu yn helpu i sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at yr egwyddorion cynaliadwy a nodir yn Neddf Cenedlaethau' Dyfodol (2015).

**2. A yw Polisïau SP17 a DNP6 yn adlewyrchu'n gywir ofynion polisi cynllunio cenedlaethol o ran y budd net ar gyfer bioamrywiaeth? A ddylai Polisi DNP6 gael ei addasu i gynnwys cyfeiriad at hyrwyddo cysylltiadau hamdden a hyrwyddo teithio llesol?**

Mae Polisïau SP17 a DNP6 wedi'u diweddaru yn y fersiwn gyflwyno i'r Datganiad Ysgrifenedig i adlewyrchu'n gywir ofynion polisi cynllunio cenedlaethol o ran budd net ar gyfer bioamrywiaeth. Gweler SD27 – Datganiad Ysgrifenedig (Newidiadau Sylweddol Ers y Cam Adnau) a SD28 – Rhestr o Fân Newidiadau i'r Cynllun Adnau.

Mae'r testun ategol o dan Bolisi DNP6 yn hyrwyddo ystod o gyfleoedd a nodir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol CBS Pen-y-bont ar Ogwr (SD60) y mae'n rhaid i gynigion datblygu geisio'u gweithredu er mwyn cyflawni bydd net bioamrywiaeth neu welliant ecolegol. Mae hyrwyddo cysylltiadau hamdden gan ganiatáu rhyngweithio rhwng y boblogaeth a mannau agored yn fesur a nodir yn y cynllun gweithredu yn nhestun ategol Polisi DNP6 (gweler paragraff 5.5.40). Nid yw'r mesur hwn ochr yn ochr â'r mesurau eraill a nodir yn y pwyntiau bwled ym mharagraff 5.5.40 yn nhrefn blaenoriaeth nac wedi'u graddio yn ôl eu pwysigrwydd. Byddai addasu Polisi DNP6 i gynnwys cyfeiriad at hyrwyddo cysylltiadau hamdden a theithio llesol yn rhoi'r argraff o fod yn bwysicach na'r mesurau eraill a restrwyd. Yn yr un modd, byddai cynnwys yr holl fesurau yng ngeiriad y polisi yn rhy anhylaw.

**3. A yw gofynion Polisi DNP5 yn glir a chyson â pholisi cynllunio cenedlaethol?**

Ystyrir bod gofynion Polisi DNP5 yn glir a chyson â pholisi cynllunio cenedlaethol. Mae Polisi DNP5 yn adeiladu ar Bolisi SP17 ac yn darparu ail haen o warchodaeth uwchlaw hynny a gynigir gan bolisi cenedlaethol. Mae hyn yn angenrheidiol i warchod y safleoedd hynny yn y CDLl a ddiffinnir eu bod o bwys rhanbarthol neu leol. Mae safleoedd o bwys rhanbarthol a lleol a nodir ym Mholisi DNP5 (sy'n cynnwys yr holl Warchodfeydd Natur Lleol dynodedig, Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, a Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol dynodedig) yn bwysig i fioamrywiaeth a chadwraeth pwysigrwydd gwyddonol yn y fwrdeistref sirol. Bydd Polisi DNP5 yn sicrhau na chaniateir datblygiadau a fyddai'n effeithio'n andwyol ar y safleoedd hyn oni ellir arddangos bod y buddiannau sy'n gysylltiedig â'r datblygiad yn gwrthbwyso'r niwed a/neu y gellir lleihau neu ddileu'r niwed drwy fesurau lliniaru a/neu iawndal priodol. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) paragraff 6.4.20 yn datgan *"Dylai polisïau ar gyfer safleoedd anstatudol ei gwneud*

*hi'n glir nad yw dynodiadau o'r fath yn atal gweithgareddau economaidd-gymdeithasol priodol lle na cheir effeithiau andwyol ar y nodweddion y cafodd y safle ei ddynodi i'w gwarchod."* Ystyrir bod hyn yn unol â Pholisi DNP5, felly ystyrir ei fod yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol.

**4. A yw'r cyfeiriad ym Mholisi DNP7 at 'Goed Arbennig' yn angenrheidiol ac yn gyson â gofynion polisi cynllunio cenedlaethol?**

Gall y cyfeiriad ym Mholisi DNP7 at 'Goed Arbennig' gael ei ddileu gan yr arolygydd os ystyrir bod angen hynny.

**5. A yw gofynion Polisi DNP8 o ran darparu asesiadau seilwaith gwyrdd yn glir ac wedi'u seilio ar dystiolaeth drylwyr a chredadwy?**

Ystyrir bod gofynion Polisi DNP8 o ran darpariaeth asesiadau seilwaith gwyrdd yn glir ac wedi'u seilio ar dystiolaeth drylwyr a chredadwy. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) paragraff 6.4.4 yn datgan *"Mae'n rhaid cymryd pob cam rhesymol i gynnal neu wella bioamrywiaeth a chryfhau cydnerthedd ecosystemau. Dylid cydbwyso'r rhain gydag anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach busnesau a chymunedau lleol."* At hynny, mae'r Siarter Creu Lleoedd (2020) yn pwysleisio bod seilwaith gwyrdd yn rhinwedd allweddol sy'n cyflawni buddion targed a dylid eu cynllunio o ddechrau prosiectau a rhaglenni. Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cefnogi cyfoeth o asedau Seilwaith Gwyrdd sydd at ei gilydd yn llunio'r rhwydwaith strategol, a nodir yn Asesiad Seilwaith Gwyrdd 2022 (SD72). Mae Polisi Cynllunio Cymru paragraff 6.2.8 yn datgan *"Dylai'r Asesiad o Seilwaith Gwyrdd gael ei ystyried yn gynnar mewn cynigion datblygu hefyd, a llywio'r gwaith o weithredu cynigion prosiect."*

Mae Polisi DNP8 yn ceisio sicrhau bod asedau seilwaith gwyrdd Pen-y-bont ar Ogwr fel y nodir yn yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd wedi'u gwerthfawrogi eu gwarchod, eu gwella a'u rheoli drwy rwydwaith seilwaith gwyrdd. Mae DNP8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddatblygiadau mawr gyflwyno Asesiad Seilwaith Gwyrdd. Datblygiadau mawr yw datblygiadau o 10 uned breswyl neu fwy. Bydd disgwyl i gynigion datblygiadau wella asedau Seilwaith Gwyrdd. Bydd cynlluniau o'r fath yn cael eu llunio i ystyried yr asedau seilwaith gwyrdd presennol i sicrhau nad oes unrhyw hollti na cholli cysylltedd wrth uchafu cadernid a gwasanaethau ecosystemau. Mewn rhai achosion, efallai bydd agen creu seilwaith gwyrdd newydd a chreu cysylltiadau i'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd presennol: gwell cysylltedd trwy lwybrau cerdded a beicio; lle ar gyfer natur sy'n cyfrannu at y patrwm lleol neu isranbarthol o gynefin cysylltiedig, a chyfleusterau hamdden dychmygus sy'n darparu buddion iechyd addysgol a chorfforol i bobl leol. Mae testun ategol Polisi DNP8 yn darparu dadansoddiad clir o'r gofynion y disgwylir eu hasesu fel rhan o gynnal asesiad seilwaith gwyrdd.

Bydd rhagor o arweiniad ar Seilwaith Gwyrdd fel rhan o ddatblygiad yn cael ei baratoi fel Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r gwaith o greu lleoedd cynaliadwy a chreu amgylcheddau byw bioamrywiol ac o ansawdd uchel.

***Yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol***

**6. A yw gofynion Polisi DNP1 yn glir a chyson â pholisi cynllunio cenedlaethol?**

Mae Polisi DNP1 yn nodi'r gofynion datblygu yng nghefn gwlad, gan amlygu'r angen i warchod y cefn gwlad agored rhag datblygu amhriodol drwy ddiffinio'r eithriadau prin i ddatblygiadau a ganiateir y tu allan. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) paragraff 3.60 yn datgan *"Dylid lleoli datblygiadau yng nghefn gwlad o fewn a gerllaw'r aneddiadau lle gellir eu lleoli orau o ran seilwaith, mynediad a gwarchod cynefinoedd a gwarchod y dirwedd. Gall mewnlenwi neu estyniadau bach i aneddiadau cyfredol fod yn dderbyniol, yn enwedig os yw'n diwallu angen lleol am dai fforddiadwy neu y gellir dangos y bydd y cynnig yn cynyddu gweithgarwch economaidd yn yr ardal. Fodd bynnag, mae'n rhaid parhau i reoli gwaith adeiladu newydd yn gaeth mewn cefn gwlad agored nad yw ger aneddiadau cyfredol neu ardaloedd a ddyrannwyd ar gyfer datblygu mewn cynlluniau datblygu. Dylai pob datblygiad newydd barchu cymeriad yr ardal o ran ei faint a'i ddyluniad."* Mae dull Polisi DNP1 yn cyd-fynd â'r egwyddorion a nodir ym mharagraff 3.60 o Bolisi Cynllunio Cymru i reoli datblygiad cefn gwlad agored yn llym. Yn gyffredinol, ystyrir y bydd y meini prawf ym Mholisi DNP1 yn sicrhau rheolaeth gadarn yng nghefn gwlad.

**7. A ddylai Polisi SP18 gyfeirio at 'gadw a gwella' yn hytrach na 'hybu neu wella' arwyddocâd asedau treftadaeth?**

Cytuno.

**8. A yw Polisïau DNP 10 ac 11 yn unigryw i'w lleoliad neu ydyn nhw'n efelychu gofynion polisi cynllunio cenedlaethol?**

Ystyrir bod y polisïau uchod

Ystyrir bod y polisïau uchod yn darparu ymateb lleol addas a rhesymol i'r canllawiau a'r bwriadau a nodir mewn polisi cenedlaethol. Mae'r ddau bolisi yn ceisio gwarchod, cadw, hybu a gwella'r amgylchedd hanesyddol fel adnodd ar gyfer llesiant cyffredinol cenedlaethau presennol a'r dyfodol.

Bydd Polisi DNP10 yn sicrhau gwarchodaeth a chadwraeth cymeriad adeiladau ac adeileddau hanesyddol ac y rheolir eu newid er mwyn cadw eu diddordeb pensaernïol a hanesyddol neu archeolegol arbennig a'u lleoliadau. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) paragraff 6.1.2 yn nodi sawl enghraifft o beth yw ased hanesyddol, a'r cyfan yn bresennol yn y Fwrdeistref Sirol ac yn ymddangos ym Mholisïau DNP10 a DNP11. Mae meini prawf 1 o Bolisi DNP10 yn dilyn y

canllawiau a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru paragraff 6.1.10 sy'n ceisio sicrhau cadwraeth a gwelliant Adeiladau Rhestredig. Mae meini prawf 2 yn ceisio gwarchod neu wella Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yn dilyn y canllawiau a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru paragraff 6.1.18. Mae meini prawf 3 yn ceisio cadw Henebion Rhestredig a'u lleoliadau sy'n dilyn y canllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru paragraff 6.1.23. Yn olaf, mae meini prawf 4 yn ceisio gwarchod a chadw tirweddau hanesyddol, parciau a gerddi sy'n dilyn canllawiau yn ymwneud â Pholisi Cynllunio Cymru paragraffau 6.1.18 a 6.1.20. Mae testun ategol Polisi DNP10 yn nodi nifer yr asedau yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae Polisi DNP11 yn dilyn y canllawiau a nodir ym mharagraff 6.1.14 Polisi Cynllunio Cymru sy'n nodi rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadwraeth neu welliant cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth eu lleoliad. Mae DNP11 yn darparu rheolaeth gadarnhaol o ardaloedd cadwraeth yn y Fwrdeistref Sirol gan sicrhau bod datblygiad mewn ardal gadwraeth yn cadw ac yn gwella cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. Bydd angen Caniatâd Ardal Gadwraeth ar wahân ar gyfer dymchwel. Bydd y Cyngor hefyd yn ceisio paratoi Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth eraill i nodi'r elfennau pensaernïol neu hanesyddol hanfodol i'w gwarchod.